# Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2022

Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2022

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Clawr | 1 |
| Tudalen gynnwys | 2 |
| Geirfa | 4 |
| Rhagair | 5 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Diben y Canllawiau | 9 |
| Y Ddyletswydd Gonestrwydd Statudol a Dyletswyddau Gonestrwydd Proffesiynol Pethnasol | 11 |
| I bwy mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol? | 12 |
| Pryd mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol? | 14 |
| Achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd | 16 |
| Mwy nag ychydig o niwed | 17 |
| Y Weithdrefn Gonestrwydd | 17 |
| Hysbysu | 17 |
| Sut i hysbysu | 20 |
| Pwy sy'n hysbysu a diben yr hysbysu | 21 |
| Rhoi gwybod yn ysgrifenedig wedyn | 23 |
| Yr ymddiheuriad | 24 |
| Hysbysu am ganlyniad ymholiadau pellach | 25 |
| Cyfathrebu â defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran | 26 |
| Cymorth a hyfforddiant | 27 |
| Cadw cofnodion | 28 |
| Goruchwylio'r trefniadau | 29 |
| Niwed sy'n digwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth wrth aros am ddiagnosteg neu ofal gan y GIG | 30 |
| Yr adolygiad | 31 |

Pan fydd mwy nag un corff GIG yn ymwneud â’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd 32

Defnyddio’r Ddyletswydd Gonestrwydd gyda gwasanaethau a gomisiynir 34

Gwasanaethau a gomisiynir gan gorff GIG oddi wrth gorff GIG arall yng Nghymru 34

Gwasanaethau a gomisiynir oddi wrth gyrff nad ydynt yn gyrff GIG yng Nghymru 34

Defnyddio’r ddyletswydd gonestrwydd gyda gofal sy’n cael ei gomisiynu y tu allan i Gymru 35

Gofynion adrodd 35

Darparwyr Gofal Sylfaenol: dyletswydd i adrodd 36

Cyhoeddi adroddiadau 37

Trefniadau sicrwydd a monitro’r Bwrdd 37

Cyfrinachedd 39

## GEIRFA

Dehongliad, yn y canllawiau hyn:

- Deddf 2006 yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- Rheoliadau 2011 yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011;
- y Ddeddf yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;
- ymddiheuriad yw mynegiant o ofid neu edifeirwch mewn perthynas â'r canlyniad andwyol hysbysadwy;
- gweithdrefn gonestrwydd yw'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd, y mae'n rhaid i gorff GIG ei ddilyn mewn perthynas â digwyddiad andwyol hysbysadwy;
- Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yw Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023
- mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol ac, yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, colli'r plentyn yn y groth neu niwed iddo;
- gofal iechyd yw gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru, o dan neu yn rhinwedd Deddf 2006, ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r canlynol–
  - (a) atal salwch, rhoi diagnosis ohono neu ei drin;
  - (b) hybu a diogelu iechyd y cyhoedd;
- mae gan salwch yr ystyr a roddir iddo yn adran 206 o Ddeddf 2006;
- ystyr corff GIG yw—
  - (a) Bwrdd Iechyd Lleol;
  - (b) Ymddiriedolaeth GIG;
  - (c) Awdurdod Iechyd Arbennig;
  - (d) darparwr gofal sylfaenol;

- mae canlyniad andwyol hysbysadwy yn digwydd pan fo'r ddyletswydd gonestrwydd yn dod i rym yn rhinwedd adran 3 o'r Ddeddf,
- defnyddiwr gwasanaeth yw unigolyn, y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo gan gorff GIG, sydd wedi dioddef canlyniad andwyol;
- ystyr Awdurdod Iechyd Arbennig yw corff a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn ystyr adran 8A(5) o Ddeddf 2006) ac eithrio Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
- mae person yn ddarparwr gofal sylfaenol i'r graddau y mae (a dim ond i'r graddau y mae) y person yn darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd contract, cytundeb neu drefniant o dan Ran 4, 5, 6 neu 7 o Ddeddf 2006 rhwng yr unigolyn a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel un sydd wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi unrhyw niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy nag ychydig o niwed, neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai brofi niwed o'r fath.

## RHAGAIR

Mae cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[1] ('y Ddeddf'), yn tynnu sylw at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ddyletswydd yn cael ei gosod ar gyrff y Gig, (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn cysylltiad â'u swyddogaethau yng Nghymru) ac ar ddarparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn cysylltiad â'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu dan gontract neu drefniadau gyda Bwrdd Iechyd Lleol.

Yn y pen draw mae'r ddyletswydd yn y Ddeddf yn canolbwyntio ar wasanaethu defnyddwyr gwasanaeth drwy sicrhau os bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol, neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi niwed o'r fath, a bod y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, bod y defnyddiwr gwasanaeth, (neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran), yn cael gwybod, yn cael ymddiheuriad ac yn cael cynnig manylion am wasanaethau neu gymorth perthnasol. Mae'n ofynnol hefyd i'r corff GIG roi i'r defnyddiwr, neu'r i'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran, esboniad o'r camau gweithredu a'r ymholiadau pellach y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn ymgymryd â hwy i ymchwilio i'r canlyniad andwyol hysbysadwy, neu i adolygu amgylchiadau'r digwyddiad, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd o dan Reoliadau 2011.

Nid Cymru yw'r unig awdurdodaeth yn y DU i fod â "dyletswydd gonestrwydd". Yn Lloegr, mae'r ddyletswydd yn Rheoliad 20 o Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014[2]. Yn yr Alban, mae yn Rhan 2 o Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc a Gofal) (yr Alban) 2016[3].

Ein hamcan polisi cyffredinol, yn unol â'n dyheadau yn Cymru Iachach[4] am ofal mwy integredig, yw sicrhau os bydd rhywun yn cael gofal gan y GIG, neu gan ddarparwr rheoleiddedig gwasanaethau gofal iechyd, bod yr unigolyn hwnnw'n gallu bod yn dawel ei feddwl y bydd y darparwr gofal yn ei drin mewn ffordd agored a gonest.

Ym maes gofal cymdeithasol, mae dyletswydd gonestrwydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Reoliadau 2017[5].

Mae gwaith yn cael ei wneud ar wahân i wneud Rheoliadau i osod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000[6]. Rydym wedi llwyddo i ymgysylltu'n gadarnhaol iawn â chynrychiolwyr o'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r bwriad yw gweithio gyda nhw i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd sy'n berthnasol i'r

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/1/contents
[2] Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) 2014 (OS 2008/2936). Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2014/9780111117613/regulation/20
[3] Deddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc a Gofal) (yr Alban) 2016. Llundain: HMSO
4 https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol
[5] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 2017 (legislation.gov.uk)
[6] Deddf Safonau Gofal 2000 (legislation.gov.uk)

sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan ragweld mai yn Ebrill 2023 y bydd yn dod i rym.

Rydyn ni'n gwybod bod y mwyafrif llethol o ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd eisiau darparu gofal diogel a thosturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, yn yr un modd, er gwaethaf y bwriadau hyn, gwyddom ei bod hi'n anochel mewn gwasanaethau cymhleth ac amlochrog y bydd pobl yn dioddef niwed o bryd i'w gilydd.

Pan fyddan nhw, mae'r ffordd y mae cyrff y GIG yn delio â'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn, a gall wneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl ac i'w perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal iechyd lle mae gan bobl berthynas hirsefydlog â'u darparwyr gofal yn aml. Mae hi'n anodd ennill ymddiriedaeth, ond mae'n hawdd ei cholli. Dylai bod yn agored ac yn onest fod wrth galon pob perthynas rhwng y rheini sy'n darparu, yn derbyn ac/neu'n cael triniaeth a gofal.

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Bydd y Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae'n gyfrwng ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a lles poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Ei nod yw rhoi llais cryfach i ddinasyddion a gwella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu profiad ac ansawdd gofal gwell. Bydd gwneud hynny'n cyfrannu at wlad iach a mwy ffyniannus. Yn ei chyfanrwydd, bwriedir i'r Ddeddf roi budd cadarnhaol cronnus i bawb yng Nghymru, gan gefnogi diwylliant ac amodau sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau mewn gofal iechyd.

1.2 Mae'r canllawiau statudol hyn yn helpu cyrff y GIG i gyflawni gofynion y Ddyletswydd.

1.3 Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae Adran 3 yn rhagnodi pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol. Mae Adran 4 yn mynnu ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n pennu'r weithdrefn mae'n rhaid i gyrff y GIG ei dilyn pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Mae Adrannau 5 i 8 yn rhagnodi'r gofynion adrodd.

Mae'r adrannau hyn o'r Ddeddf yn cael eu hystyried yn fanylach yn nes ymlaen yn y canllawiau.

1.4 Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd hefyd yn hwyluso cydymffurfiad Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig â'r canlynol:

- y ddyletswydd ansawdd yn adran 2 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyflawni eu swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd;
- y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol[7] a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[8], sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff roi sylw dyledus i ba mor ddymunol yw cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol;
- y ddyletswydd llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[9] i gyflawni datblygu cynaliadwy.

1.5 Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cynnig cefnogaeth i holl bobl Cymru, ac mae gwybodaeth amdani ar gael iddynt. Mae'n hybu penderfyniadau gwell ac yn y pen draw mae'n ceisio cyflawni canlyniadau gwell i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a hwyluso camau ataliol, a thrwy hynny wella ansawdd gwasanaethau ac edrych tua'r hirdymor.

---

[7] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf
[8] Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk)
[9] https://www.futuregenerations.wales/cy/

1.6 Hefyd, bydd y dystiolaeth a'r data a gesglir drwy'r ddyletswydd gonestrwydd yn cyfrannu at ein system Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd. Drwy ein dull Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd yng Nghymru, byddwn yn holi pobl ynglŷn â'u canlyniadau ac yn creu system sy'n seiliedig ar ddata sy'n ceisio darparu gwybodaeth yn amserol i ddinasyddion, timau clinigol a sefydliadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n arwain at y canlyniadau hynny mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol.

1.7 Y bwriad cyffredinol felly yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud i ddatblygu ac i gefnogi'r diwylliant o fod yn agored yn y GIG yng Nghymru, (fel adrodd gwell ac ymchwilio'n gymesur i ddigwyddiadau, yn unol â'r Polisi Cofnodi Digwyddiadau Diogelwch Cleifion Cenedlaethol[10] newydd, cyflwyno'r broses Gweithio i Wella[11] ar gyfer ymchwilio i bryderon, sy'n seiliedig ar egwyddorion Bod yn Agored), a symud i weithredu dyletswydd gonestrwydd sefydliadol mwy strwythuredig sy'n cael ei chefnogi gan ganllawiau statudol a Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd.

[10] Digwyddiadau Diogelwch Cleifion – Yr Uned Gyflawni (gig.cymru)
[11] https://llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

## 2 DIBEN Y CANLLAWIAU

2.1 Dylai bod yn agored gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr deimlo fel y peth iawn i'w wneud. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei chynllunio i greu amgylchedd diogel sy'n cefnogi ac yn grymuso'r rheini sy'n darparu, yn derbyn ac/neu sy'n cael triniaeth a gofal y GIG.

2.2 Yn y canllawiau hyn, mae'r gair **rhaid** yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n ofyniad cyfreithiol fel y nodir yn Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd neu yn Rhan 3 o'r Ddeddf. Mae gweddill y canllawiau wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith o arferion gorau i helpu cyrff y GIG i weithredu a chymhwyso'r ddyletswydd.

2.3 Yn unol ag adran 10 o'r Ddeddf, rhaid i gyrff y GIG ystyried y canllawiau wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd.

2.4 Mae'r canllawiau'n cynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos i helpu cyrff y GIG i ddeall pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, ac mae'n cynnig siartiau llif cam-wrth-gam i'r weithdrefn.

2.5 Mae hefyd yn cynnwys canllawiau i gyrff y GIG ar gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd arnynt o ran adrodd, sy'n elfen allweddol o'r ddyletswydd gonestrwydd.

2.6 Mae'n darparu'r sylfaen i gyrff y GIG ddatblygu polisïau a gweithdrefnau lleol, a gofynion hyfforddi a chefnogi sydd wedi'u teilwra i'r corff a/neu'r gwasanaethau penodol y maent yn eu darparu, a bydd yn helpu i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a thegwch o ran ymateb: 'model Cymru gyfan'.

2.7 Bydd y canllawiau'n cael eu hategu gan becyn hyfforddi ar-lein a luniwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru i helpu cyrff y GIG i weithredu'r ddyletswydd. Gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau fel rhan o'r broses Gweithio i Wella i wreiddio ymddygiad agored, mae rhaglen hyfforddi Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i annog y "newid diwylliannol" drwy wneud bod yn agored ac yn dryloyw yn rhan arferol o'r diwylliant ar draws cyrff y GIG yng Nghymru.

2.8 Bwriedir i'r canllawiau hefyd fod yn rhywbeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr allu cyfeirio atynt. Mae taflenni hawdd eu darllen ar gael i sicrhau bod pawb yn ein cymuned yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau a fydd yn eu grymuso i ofyn cwestiynau am y gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn, i'w helpu i ddeall beth mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ei olygu, a beth y gallant ei ddisgwyl gan eu darparwyr gofal.

2.9 Ni fwriedir iddynt fod yn ddehongliad pendant o’r ddeddfwriaeth ar y ddyletswydd gonestrwydd. Dylid darllen y Ddeddf, Rheoliadau’r Ddyletswydd Gonestrwydd a’r canllawiau gyda’i gilydd.

2.10 Rydyn ni hefyd yn cydnabod mai dim ond rhan o’r broses yw’r Ddeddf, y Rheoliadau a’r fframwaith o’i chwmpas, er eu bod yn bwysig. Er mwyn gwreiddio’r ddyletswydd gonestrwydd go iawn bydd hefyd angen goresgyn y pethau sy’n rhwystro diwylliant agored a gonest. Mae'r rhwystrau hynny’n cynnwys ofn, diwylliant o gyfrinachedd a/neu feio, diffyg hyder mewn sgiliau cyfathrebu, ofn ypsetio pobl ac amheuaeth bod datgelu yn llwyddo i wella diwylliant. Mae ofn gweld bai, canlyniadau proffesiynol neu sefydliadol, atebolrwydd cyfreithiol, ymatebion negyddol a diffyg atebolrwydd hefyd yn gallu rhwystro pobl rhag datgelu.

2.11 Bydd system heb rwystrau artiffisial rhwng cyrff y GIG, lle mae gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae staff yn cael cymorth i wella gofal yn hytrach na’i reoli neu ei ddarparu’n unig, a lle mae pwyslais ar atebolrwydd, yn helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.

2.12 At ddibenion y canllawiau hyn, a gwneud cysylltiadau â’r Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd, cyfeirir at y term defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran fel ‘unigolyn perthnasol’ yn y Rheoliadau. Cyfeirir at gorff GIG yn y Rheoliadau fel 'corff cyfrifol'.

# 3 Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD STATUDOL A DYLETSWYDDAU GONESTRWYDD PROFFESIYNOL PRESENNOL

3.1 Bu galwadau i osod dyletswydd gonestrwydd[12] [13] [14] [15] ar gyrff y GIG, ar wahân i, a chan adeiladu ar y dyletswyddau gonestrwydd anstatudol sy'n berthnasol i amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel rhan o'u rheoleiddio proffesiynol.

3.2 Bydd cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru yn ategu'r ddyletswydd broffesiynol bresennol o onestrwydd sy'n ofynnol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a llawer o gyrff rheoleiddio proffesiynol eraill. Er hynny, dylid cydnabod bod canllawiau proffesiynol yn berthnasol mewn mwy o sefyllfaoedd na Dyletswydd Gonestrwydd y sefydliad.

3.3 Mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhwym wrth ddyletswyddau gonestrwydd proffesiynol fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau, eu cydweithwyr, eu cyflogwyr a sefydliadau perthnasol, a chymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau pan ofynnir iddyn nhw wneud hynny. Rhaid iddyn nhw gefnogi ac annog ei gilydd i fod yn agored ac yn onest[16]. Rhaid iddyn nhw hefyd fod yn agored ac yn onest gyda'u rheoleiddwyr, gan godi pryderon pan fydd hynny'n briodol. Felly, mae egwyddorion sylfaenol dyletswydd gonestrwydd eisoes wedi cael eu gwreiddio ar draws ystod eang o gyrff y GIG.

3.4 Mae gan y ddyletswydd gonestrwydd statudol a'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol yr un nodau – sef bod yn agored ac yn dryloyw gyda phobl sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Bydd y cysylltiadau cryf rhwng y dyletswyddau gonestrwydd statudol a phroffesiynol yn grymuso staff i siarad yn agored am bryderon, ac yn annog dysgu i wella ansawdd y ddarpariaeth gofal.

3.5 Bydd y ddyletswydd statudol yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn onest ar draws y system. Mae hefyd yn gosod gofyniad, ar lefel sefydliadol ar gyfer cyrff y GIG, i ddilyn gweithdrefn benodol, wedi'i seilio ar y Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd i ddangos bod cyfres o gamau wedi'u rhagnodi wedi'u cymryd pan fydd y ddyletswydd yn cael ei sbarduno. Disgrifir y camau gweithredu hyn ym mhwynt 7 isod, a gefnogir gan siart llif gweithdrefn a geir yn **Atodiad C**. Bydd y seilwaith hwn yn helpu i greu'r amodau i gyrff y GIG gyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd yn hyderus pan gaiff ei sbarduno.

---

[12] Kennedy, I ac eraill. Ymchwiliad Ysbyty Brenhinol Bryste. Learning from Bristol - The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995 [Rhyngrwyd]. Y Goron; 2001. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090811143822/http:/www.bristol-inquiry.org.uk/final_report/the_report.pdf

3.6 Er enghraifft, dylai fferyllwyr cofrestredig, technegwyr fferyllol a phobl sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth mewn fferyllfa fanwerthu barhau i fod yn ymwybodol o ddarpariaethau Gorchymyn Fferylliaeth (Camgymeriadau Paratoi a Dosbarthu – Fferyllfeydd Cofrestredig) 2018[17]. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth mewn perygl o gael eu herlyn o dan adran 63 (amhuro cynnyrch meddyginiaethol) ac adran 64 (gwerthu unrhyw gynnyrch meddyginiaethol nad yw o natur neu ansawdd a fynnir gan y prynwr) Deddf Meddyginiaethau 1968[18] os ydyn nhw'n paratoi neu'n dosbarthu meddyginiaethau'n anghywir.

3.7 Er mwyn elwa o'r amddiffyniadau newydd yn adran 67B (amddiffyniad i drosedd o fynd yn groes i adran 63(a) neu (b): cynnyrch a brynwyd neu a werthwyd) ac adran 67C (amddiffyniad i drosedd o fynd yn groes i adran 64) o'r Ddeddf Meddyginiaethau, rhaid bodloni'r amodau ar gyfer elwa o'r amddiffyniadau, gan gynnwys yr amodau sy'n ymwneud â hysbysu'r unigolyn y bwriadwyd i'r cynnyrch gael ei roi iddo.

3.8 O ganlyniad, mae angen ystyried gofynion y Gorchymyn ochr yn ochr â'r ddyletswydd gonestrwydd statudol, ac yn ychwanegol â hi.

# 4 I BWY MAE'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN BERTHNASOL?

4.1 Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn Rhan 3 o'r Ddeddf yn berthnasol i'r cyrff GIG canlynol a restrir yn adran 11(3), ac a ddiffinnir drwy gyfeirio at adran 11(4) a (7):

- Byrddau Iechyd Lleol;
- Darparwyr Gofal Sylfaenol yng Nghymru (hy Meddygon Teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr) mewn cysylltiad â'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu dan gontract neu drefniant gyda Bwrdd Iechyd Lleol (hy mae'n

[13] Donaldson, L. Making Amends - A consultation paper setting out proposals for reforming the approach to clinical negligence in the NHS [Rhyngrwyd]. Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; 2003. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120809195448/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4060945.pdf
[14] Francis, R ac eraill. Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford [Rhyngrwyd]. Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Swydd Stafford; 2013. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/report-of-the-mid-staffordshire-nhs-foundation-trust-public-inquiry
[15] Evans, K. "Using the Gift of Complaints" - ADOLYGIAD O YMDRIN Â PHRYDERON (CWYNION) YN GIG CYMRU [Rhyngrwyd]. 2014. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/deddf-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-memorandwm-esboniadol.pdf
[16] https://www.nmc.org.uk/standards/guidance/the-professional-duty-of-candour/read-the-professional-duty-of-candour/#about_guidance
[17] SI 2018/181
[18] 1968 c. 67.

berthnasol i wasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gofal sylfaenol);

- Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru;
- Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru, a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn cysylltiad â'r swyddogaethau mae'n eu harfer mewn cysylltiad â Chymru.

## 5 PRYD MAE'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD YN BERTHNASOL?

5.1 Rhan 3, Adran 3 o'r Ddeddf sy'n pennu pryd mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol. Mae **Atodiad A** yn nodi mewn siart llif beth yw'r broses adolygu ar gyfer sbarduno.

5.2 Daw'r ddyletswydd i rym mewn cysylltiad â chorff GIG os yw'n ymddangos i'r corff bod y **ddau** amod canlynol yn cael eu bodloni:

(1) Yr **amod cyntaf** yw bod y sawl (y "defnyddiwr gwasanaeth") y mae'r corff yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol.

Mae 'gofal iechyd' yn golygu gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru, o dan neu yn rhinwedd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 hy fel rhan o unrhyw wasanaeth y GIG, ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

- atal salwch, rhoi diagnosis ohono neu ei drin; neu
- hybu a diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae salwch yn cynnwys unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol ac unrhyw anaf neu anabledd sydd angen triniaeth feddygol neu ddeintyddol neu nyrsio.

Mae ystyr gofal iechyd wedi'i ddiffinio'n eang yn fwriadol er mwyn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru dan ymbarél y GIG.

Mae defnyddiwr gwasanaeth i'w drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr yn profi mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y **gallai** brofi niwed o'r fath.

Fel y nodir yn y Nodiadau Esboniadol i'r ddeddf, gall y ddyletswydd gael ei sbarduno oherwydd cam penodol a gymerwyd gan gorff GIG wrth ddarparu gofal iechyd neu oherwydd ei fod wedi methu â chymryd cam penodol.

At ddibenion y ddyletswydd gonestrwydd, mae niwed yn cynnwys niwed seicolegol ac yn achos defnyddiwr gwasanaeth sy'n feichiog, colli'r plentyn heb ei eni neu ei niweidio (adran 11(7) o'r Ddeddf).

(2) Yr **ail amod** yw bod darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gall fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Rhaid i'r canlyniad felly ymwneud â'r gofal a gafodd ei ddarparu gan y corff GIG yn hytrach na'i fod yn cael ei briodoli'n llwyr i salwch neu i gyflwr isorweddol yr unigolyn.

Fodd bynnag, nid oes angen bod yn sicr mai'r gofal iechyd a achosodd y niwed. Mae'r posibilrwydd y gallai'r gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor yn ddigon.

Pan fydd y ddau amod yn cael eu bodloni yn y Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd ac mae'r ddyletswydd wedi'i sbarduno, mae'n cael ei alw'n "ganlyniad andwyol hysbysadwy".

Beth mae niwed y 'gallai'r defnyddiwr gwasanaeth ei brofi' yn ei olygu?

5.3 Mae'n bwysig nodi bod y ddyletswydd yn cael ei sbarduno nid yn unig pan fo'n hysbys bod niwed wedi digwydd, ond hefyd mewn achosion lle'r mae amgylchiadau yn golygu **y gallai person ddioddef niwed sy'n fwy nag ychydig o niwed yn y dyfodol**. Er enghraifft, lle gall camgymeriad wrth roi meddyginiaeth achosi niwed sy'n fwy nag ychydig yn y dyfodol.

5.4 Bydd rhaid i gyrff y GIG farnu a yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai'r defnyddiwr brofi niwed sy'n fwy na nag ychydig o niwed. Yn achos gwall wrth weinyddu meddyginiaeth, gallai p'un a all camgymeriad o'r fath esgor ar niwed sy'n fwy nag ychydig o niwed ddibynnu ar natur y feddyginiaeth a roddwyd mewn camgymeriad, neu amgylchiadau'r claf penodol.

5.5 Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun ar gyfer ymarferwyr, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi esbonio hyn yn ei ganllawiau ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol fel 'sefyllfaoedd lle gall claf 'ddioddef niwed eto' oherwydd canlyniad andwyol.

5.6 Mae **atodiad H** yn cynnwys astudiaethau achos enghreifftiol sy'n rhoi enghreifftiau manwl o achosion a fyddai'n sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd a'r rheini na fyddent yn gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o achosion sy'n dangos y ddyletswydd yn cael ei sbarduno lle gallai niwed ddigwydd yn y dyfodol. (Astudiaethau achos 9, 10 ac 11).

## 6 ACHOSION Y BU OND Y DIM IDDYNT DDIGWYDD

6.1 **Nid** yw achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu hystyried yn sbardun ar gyfer y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Mae'r ddyletswydd yn cael ei chynllunio i gofnodi mwy nag ychydig o niwed sy'n amlwg adeg y digwyddiad neu a allai ymddangos yn nes ymlaen. Gydag achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, mae'r niwed (neu'r potensial ar gyfer niwed yn y dyfodol) yn cael ei osgoi. Fodd bynnag, oherwydd eu natur ddifrifol a'r angen i ddysgu o ddigwyddiadau o'r fath a'u hatal rhag digwydd eto, dylid rheoli achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd drwy ddilyn y prosesau adrodd arferol[19].

6.2 Er nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd statudol o dan y Ddeddf yn cael ei sbarduno gan achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, dylai ymarferwyr unigol fod yn gyfarwydd â'r canllawiau ar achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a ddarperir gan eu cyrff rheoleiddio proffesiynol. Er enghraifft, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[20] a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol[21] yn darparu arweiniad a chefnogaeth i ymarferwyr ynghylch pryd a sut i siarad â defnyddwyr gwasanaeth am achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

[19] Digwyddiadau Diogelwch Cleifion – Yr Uned Gyflawni (gig.cymru)
[20] Openness and honesty when things go wrong: the professional duty of candour (nmc.org.uk)
[21] Being open and honest with patients in your care, and those close to them, when things go wrong - CMC (gmc-uk.org)

## 7 MWY NAG YCHYDIG O NIWED

7.1 Nid yw “mwy nag ychydig o niwed” wedi’i ddiffinio yn y Ddeddf. Y bwriad bob amser oedd gosod y diffiniad ar ôl ymgynghori. Mae **mwy nag ychydig o niwed yn cael ei ddiffinio fel niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth**, sy’n cefnogi’r prosesau presennol ar gyfer Gweithio i Wella a Bod yn Agored a hefyd yn cyd-fynd â system Datix Cymru, modiwl cofnodi digwyddiadau. Felly, yn ymarferol, mae’r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno os bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed annisgwyl neu anfwriadol sy’n gymedrol neu’n fwy na hynny, neu bod yr amgylchiadau’n golygu y gallai ddioddef niwed o’r fath, a bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn ffactor (neu efallai’n ffactor) yn y canlyniad hwnnw i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae fframwaith lefel niwed, sy’n egluro’r niwed sy’n cael ei ystyried yn gymedrol ac yn uwch, wedi’i gynnwys yn **Atodiad B**.

## 8 Y WEITHDREFN GONESTRWYDD

8.1 Mae Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn rhagnodi’r camau y mae’n **rhaid** i gorff GIG eu cymryd pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno.

8.2 Mae angen darllen yr adran hon o’r canllawiau gyda’r Rheoliadau hynny a’r siart llif o’r weithdrefn sydd yn **Atodiad C**.

### Hysbysu

8.3 Mae’r Ddeddf a Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG roi gwybod **‘pan ddaw’n ymwybodol gyntaf’** fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym ac i beidio ag aros am ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad cychwynnol cyn rhoi gwybod.

8.4 Mae'n bwysig nodi bod rheoliad 4 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG roi gwybod i'r **defnyddiwr gwasanaeth** sydd wedi dioddef canlyniad andwyol hysbysadwy neu i’r **sawl sy'n gweithredu ar ei ran** (yn Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd, gelwir y person hwn yn ‘berson perthnasol”).

8.5 Gellir rhoi gwybod i’r sawl sy’n gweithredu'n gyfreithlon ar ran y defnyddiwr gwasanaeth, os yw'r defnyddiwr gwasanaeth:

- wedi marw;
- yn 16 oed neu'n hŷn ac nad yw’n meddu ar y galluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) mewn perthynas â'r mater; neu
- ei fod o dan 16 oed ac nad yw'n gymwys i wneud penderfyniad mewn perthynas â'i ofal neu ei driniaeth.

8.6 Mae Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd hefyd yn caniatáu i ddefnyddiwr gwasanaeth sydd â gallu enwebu unigolyn mae'n ymddiried ynddo i weithredu ar ei ran mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, gan gydnabod na fydd pawb y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn dymuno ymwneud â'r broses yn bersonol.

8.7 Mae'n bwysig sicrhau y glynir wrth ofynion GDPR bob amser wrth gael gafael ar wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth, ei phrosesu a'i datgelu. Mewn achosion lle mae cynrychiolydd yn gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth sydd â gallu, dylid cael caniatâd ysgrifenedig i'r cynrychiolydd weithredu ac adolygu hyn drwy gydol y broses.

**<u>Beth mae 'dod yn ymwybodol gyntaf' yn ei olygu?</u>**

8.8 Mae'r gofyniad i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran pan ddeuir yn ymwybodol gyntaf bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno yn golygu y dylai'r corff GIG ystyried a gwneud penderfyniad ystyriol ynghylch a yw'r amodau fel y'u nodir yn rhan 4 uchod wedi'u bodloni. Ar ôl penderfynu bod yr amodau fel y'u nodir yn rhan 4 uchod wedi'u bodloni, ystyrid mai ar y pwynt hwn y mae corff GIG 'yn dod yn ymwybodol gyntaf' bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno.

8.9 Dyma'r dyddiad cychwyn ar gyfer dyletswydd gweithdrefn gandwr (y cyfeirir ato yn y Canllawiau hwn a'r atodiadau fel "y dyddiad cychwyn gweithdrefn"), y mae'n rhaid ei ddilyn, gan ddechrau gyda'r hysbysiad 'mewn person' i'r defnyddiwr/person gwasanaeth sy'n gweithredu ar eu rhan.

8.10 Dylai fod gan bob corff GIG broses gadarn a chyson ar waith i benderfynu a yw canlyniadau andwyol (digwyddiadau) a gofnodir yn tanio'r ddyletswydd ai peidio. **Nid yw hyn yn golygu bod cyrff y GIG yn ymchwilio i amgylchiadau'r digwyddiad a gofnodwyd cyn gwneud y penderfyniad hwn.** Bydd angen rhywfaint o fyfyrio a gwneud penderfyniadau ar ran y corff GIG cyn penderfynu a yw'r ddyletswydd wedi cael ei sbarduno, ond nid ymchwiliad manwl.

8.11 Nid yw defnyddio system Datix Cymru yn orfodol. Fodd bynnag, cyflwyno a datblygu hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd ac mae ar gael am ddim i holl gyrff y GIG. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o gyrff y GIG yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy system Datix Cymru, ac mae hynny'n cael ei annog. Mae neges ar y system i ofyn i'r rheini sy'n cwblhau a/neu'n adolygu'r adroddiad ar y digwyddiad a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno ai peidio.

8.12 Bydd angen i gyrff y GIG ddatblygu system ar gyfer adolygu'n lleol y digwyddiadau hynny yr adroddwyd yn wreiddiol eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd, hy bod yr amodau a nodir ym rhan 4 uchod wedi cael eu bodloni. Os penderfynir nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, byddai'n arfer da cadw nodyn o'r rhesymau dros ddod i benderfyniad o'r fath yn yr adroddiad ar y digwyddiad. Gallai hyn, er enghraifft, fod mor syml â nodi ar ôl adolygu ac ystyried, cytunwyd nad yw'r trothwy ar gyfer mwy nag ychydig o niwed wedi'i fodloni neu nad oedd y niwed a ddioddefodd yr unigolyn yn gysylltiedig â'r gofal iechyd a ddarparwyd.

8.13 I esbonio ymhellach, os penderfynir bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, byddai hyn yn cael ei ystyried yn bwynt lle daw'r corff GIG yn ymwybodol gyntaf. Dyma'r dyddiad cychwyn ar gyfer y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd, y mae'n rhaid ei dilyn, gan ddechrau gyda rhoi gwybod 'yn uniongyrchol' i'r defnyddiwr gwasanaeth/y person sy'n gweithredu ar ei ran.

8.14 Os gwneir yr hysbysiad 'uniongyrchol' yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daw corff GIG yn ymwybodol gyntaf o ganlyniad andwyol hysbysadwy, sef dyddiad cychwyn y weithdrefn gonestrwydd, dylid darparu esboniad a chofnodi'r rheswm dros yr hysbysiad gohiriedig yn yr adroddiad ar y digwyddiad.

8.15 **Felly, dyddiad dechrau gweithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd yw'r dyddiad y daw corff GIG yn ymwybodol gyntaf o am ganlyniad andwyol hysbysadwy.**

8.16 Gan ystyried sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, byddai'r "gyfres digwyddiadau" yn digwydd fel a ganlyn:

- defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed sy'n gysylltiedig â thriniaeth (neu a allai fod yn gysylltiedig â hynny);
- dylai staff ymddiheuro, esbonio i'r defnyddiwr gwasanaeth/teulu beth sydd wedi digwydd, er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol;
- maent yn adrodd am y "digwyddiad" (gan ddefnyddio Datix Cymru yn y rhan fwyaf o achosion);
- mae Datix Cymru yn gofyn a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno;
- os bydd y sawl sy'n cofnodi'r digwyddiad yn teimlo bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno ac yn cofnodi ar system Datix Cymru bod niwed cymedrol neu uwch wedi cael ei achosi neu o bosibl wedi cael ei achosi, bydd adran 'bod yn agored ac yn dryloyw' yn agor yn awtomatig gan alluogi'r gohebydd i gofnodi rhagor o wybodaeth yn unol â'r gofyniad ar gyfer y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd.
- os penderfynir nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, er bod niwed cymedrol neu uwch wedi cael ei achosi neu o bosibl wedi cael ei achosi, dylid cadw nodyn o'r rhesymau dros ddod i benderfyniad o'r fath yn yr adroddiad ar y digwyddiad.
- bydd pob digwyddiad yn cael ei adolygu'n fewnol gan y corff GIG;

- ar gyfer y rheini y cytunir bod yr amodau ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd (a nodir yn rhan 4 uchod) wedi’u bodloni, dyma’r adeg pan ystyrir bod y corff GIG yn dod yn ymwybodol gyntaf bod canlyniad andwyol hysbysadwy wedi digwydd a bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd, fel y nodir yn y Rheoliadau Gweithdrefnau Gonestrwydd, wedyn yn cael ei sbarduno a bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn dechrau.

**Sut i hysbysu**

8.17 Dylai’r hysbysiad i’r defnyddiwr gwasanaeth neu’r sawl sy'n gweithredu ar ei ran fod 'yn uniongyrchol'[22] sy'n golygu cyfathrebu ar y ffôn, cyfathrebu clyweledol (fel galwad fideo) neu gyfathrebu wyneb yn wyneb. Ystyrir y byddai llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn synnu o gael llythyr drwy’r post yn rhoi gwybod iddynt bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno ac mae’n bosibl y byddai ganddynt gwestiynau/pryderon y byddai angen eu hateb neu eu lleddfu ar unwaith. Nid yw gadael negeseuon llais, chwaith, yn cael ei ystyried yn briodol wrth wneud y cyswllt ‘uniongyrchol’. Mae profiad o adolygiadau diweddar hefyd yn dangos mai dull ‘uniongyrchol’ sydd fwyaf priodol ar gyfer y cyswllt cyntaf.

8.18 Fodd bynnag, mae gan gyrff y GIG ddisgresiwn ynghylch pa ddull o gyfathrebu “uniongyrchol” sydd fwyaf priodol. Nid yw’n cael ei ystyried yn gymesur (nac yn bosibl yn ymarferol) i gael cyfarfod wyneb yn wyneb â phob unigolyn mewn achosion lle mae’r ddyletswydd gonestrwydd wedi’i sbarduno.

8.19 Dyma’r ffactorau y mae’n rhaid i gorff GIG eu hystyried wrth benderfynu pa ddull o roi gwybod “yn uniongyrchol” sydd fwyaf priodol:

a) difrifoldeb y niwed;

b) natur a chymhlethdod y canlyniad andwyol hysbysadwy;

c) amgylchiadau personol y defnyddiwr gwasanaeth (os ydynt yn hysbys);

d) unrhyw gyfathrebu a wnaed eisoes gyda’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran

e) unrhyw ddull cyfathrebu hysbys a ffefrir gan y defnyddiwr gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle gallai’r defnyddiwr gwasanaeth fod angen cefnogaeth, er enghraifft BSL neu gyfieithydd iaith dramor.

[22] Yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd.

8.20 Mewn rhai sefyllfaoedd, gall yr hysbysiad cychwynnol dros y ffôn fod yn ddigonol; mewn achosion mwy cymhleth, mae'n debygol y bydd yn fwy priodol trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran.

8.21 Rhaid i'r corff GIG gymryd camau rhesymol i sefydlu'r dull cyfathrebu a ffefrir. Rhaid iddo hefyd gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cyfathrebu mewn modd sy'n golygu y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn ei ddeall[23]. Mae cyrff y GIG yn ddarostyngedig i ofynion Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018[24].

8.22 Cydnabyddir mewn rhai achosion efallai na fydd hi'n hysbys ar y dechrau pa ddull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio na pha ddull cysylltu mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn ei ffafrio; efallai y bydd angen cysylltu dros y ffôn yn y lle cyntaf er mwyn cael sgwrs ynghylch pa gamau y gallai fod angen eu cymryd i sicrhau bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cael ei dilyn.

**Pwy sy'n hysbysu a diben yr hysbysu**

8.23 Bydd angen i'r corff GIG bennu'r unigolyn neu'r unigolion mwyaf priodol i roi gwybod "yn uniongyrchol" i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran i ddechrau. Mae rhan 7b uchod yn nodi ffactorau defnyddiol y dylai'r corff GIG eu hystyried wrth benderfynu ar yr unigolyn neu'r unigolion mwyaf priodol i roi gwybod "yn uniongyrchol" i ddechrau i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran.

8.24 Yn bennaf oll, y cyswllt cyntaf gyda'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yw cydnabod yr hyn sydd wedi digwydd a chynnig ymddiheuriad ystyrlon, personol a rhoi gwybod iddo beth fydd yn digwydd nesaf.

8.25 Rhaid i'r corff GIG enwebu rhywun sydd â digon o brofiad a gwybodaeth am y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd a dealltwriaeth ohoni er mwyn gallu cynorthwyo'r defnyddiwr gwasanaeth/ei gynrychiolydd gydag unrhyw gwestiynau a allai godi wrth iddynt fynd drwy'r broses, sef y "pwynt cyswllt enwebedig".

8.26 Mae rheoliad 4 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn rhagnodi'r hyn y mae'n **rhaid** ymdrin ag ef yn yr hysbysiad "yn uniongyrchol" cychwynnol.

8.27 Rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y cyswllt cyntaf â'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran wneud y canlynol:
- esbonio'n glir pa wybodaeth sydd ganddynt hyd yma am yr hyn sydd wedi digwydd;

[23] Gweler rheoliad 7 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd.
[24] 2018/441 (W.77).

- amlinellu pam mae'r corff GIG o'r farn bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno;
- rhoi ymddiheuriad. Ceir canllawiau ar sut mae rhoi ymddiheuriad personol ac ystyrlon yn 7E isod ac yn Atodiad E;
- darparu ei fanylion cyswllt os bydd yn parhau i fod yn bwynt cyswllt enwebedig ar gyfer y corff GIG, neu ddarparu manylion cyswllt eraill os bydd y pwynt cyswllt enwebedig yn wahanol i'r sawl sy'n cysylltu am y tro cyntaf. Y pwynt cyswllt enwebedig yw'r unigolyn y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn cysylltu ag ef/hi os bydd ganddo unrhyw gwestiynau am y broses dyletswydd gonestrwydd.
- rhoi esboniad o'r camau a'r ymholiadau dilynol y bydd y corff GIG yn eu cymryd i ymchwilio neu i adolygu amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau y bydd y corff GIG (neu, os yw'r gwasanaethau wedi'u comisiynu oddi wrth ddarparwr annibynnol yng Nghymru, y darparwr) yn eu cymryd o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011[25] ("Rheoliadau 2011"). Mae'r ymchwiliad neu'r adolygiad o'r canlyniad andwyol hysbysadwy yn cael ei ystyried ymhellach ym mhwynt 8 isod.
- rhoi i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran fanylion unrhyw wasanaethau neu ffynonellau cymorth y mae'r corff GIG yn credu'n rhesymol y gallent fod o gymorth iddynt, gan ystyried eu hanghenion. Mae **Atodiad D** yn nodi cysylltiadau defnyddiol ar gyfer opsiynau cymorth.

8.28 Mae Rheoliad 4 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad 'yn uniongychol' roi esboniad i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran os yw'r dyddiad yr hysbysiad 'uniongyrchol' yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad pan ddaeth y corff GIG yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy. Diben hyn yw esbonio unrhyw oedi a allai ddigwydd cyn hysbysu, er enghraifft yn dilyn adolygiad ôl-weithredol o achos. Nid yw'n golygu bod gan gyrff y GIG 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y digwyddodd y canlyniad andwyol hysbysadwy i roi'r hysbysiad 'yn uniongyrchol'.

8.29 Mae hefyd yn arfer da sefydlu beth mae'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn ei ddeall am yr hyn sydd wedi digwydd yn y sgwrs hon. Dylai'r sawl sy'n rhoi gwybod ar ran y corff GIG hefyd ddangos ei fod yn deall yr amgylchiadau a'r effaith ar y sawl yr effeithir arno. Ni ddylai gwestiynu hyd a lled y niwed roedd yr unigolyn wedi'i ddioddef nac amgylchiadau'r 'digwyddiad'.

8.30 Gallai hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer sgyrsiau hirach gyda'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran, a bydd yn bwysig i bawb dan sylw bod y cyswllt cyntaf hwn yn cael ei gynnal yn wir ysbryd y ddyletswydd, yn agored, gydag empathi ac yn ddidwyll.

*Pethau i'w hystyried – **Cyn i'r hysbysiad "uniongyrchol" ddigwydd:***

[25] OS 2011/704 (W.108).

- a oes rhywun o’r corff GIG eisoes wedi bod mewn cysylltiad â’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran?
- pa drafodaethau sydd eisoes wedi cael eu cynnal neu pa wybodaeth sydd eisoes wedi cael ei chyfnewid (os o gwbl)?
- beth sy’n hysbys am yr hyn sydd wedi digwydd a lefel y niwed a gafwyd neu y gellid bod wedi’i gael?
- a yw'r dull hysbysu a ffafrir yn hysbys? ee yn uniongyrchol, yn ysgrifenedig, yn electronig;
- pwy fydd yr un pwynt cyswllt o fewn y corff GIG yn dilyn yr hysbysiad cychwynnol?
- pa gefnogaeth sydd ar gael i’r defnyddiwr gwasanaeth, neu'r sawl sy’n gweithredu ar ei ran, i’w cynorthwyo yn ystod y broses hysbysu ac wedyn?
- sicrhau bod y cyfathrebu’n digwydd mewn modd sy’n golygu y bydd y defnyddiwr gwasanaeth neu’r sawl sy’n gweithredu ar ei ran yn ei ddeall.

**Rhoi gwybod yn ysgrifenedig wedyn**

8.31 Yn dilyn yr hysbysiad “uniongyrchol”, mae rheoliad 5 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i ysgrifennu at y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran (oni bai ei fod wedi nodi nad yw’n dymuno cymryd rhan yn y broses gonestrwydd) o fewn dau ddiwrnod gwaith. Mae hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys rhoi gwybod drwy e-bost.

8.32 Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys:

- disgrifiad o unrhyw ystyriaeth gychwynnol o'r canlyniad andwyol hysbysadwy,
- ailadrodd yr ymddiheuriad geiriol,
- yr wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad uniongyrchol, sydd fel a ganlyn:
  - y rheswm pam y mae’r corff GIG o'r farn bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno,
  - enw a manylion cyswllt y person yn y corff GIG a enwebwyd fel pwynt cyswllt ar gyfer y defnyddiw gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran mewn perthynas â'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd,
  - esboniad o'r camau gweithredu a’r ymholiadau pellach y bydd y corff cyfrifol neu'r darparwr yn ymgymryd â hwy i ymchwilio i’r canlyniad andwyol hysbysadwy, neu i adolygu amgylchiadau’r digwyddiad, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd o dan Reoliadau 2011,
  - ailadrodd y cynnig o fanylion gwasanaethau neu gymorth perthnasol, ac
  - os yw’r hysbysiad 'uniongyrchol' yn cael ei wneud yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth corff GIG yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, esboniad o'r rheswm dros yr oedi.

8.33 Nod yr hysbysiad ysgrifenedig yw cadarnhau'n ysgrifenedig yr hyn a drafodwyd yn yr hysbysiad 'uniongyrchol. Mae hyn er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y defnyddiwr/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran, a hefyd er mwyn i’r corff GIG gael cofnod o'r hyn a drafodwyd.

8.34 Dylid ystyried personoli’r llythyr hysbysu gyda llofnod mewn llawysgrifen. Awgrymwyd yn ystod sesiynau ffocws gydag aelodau’r cyhoedd bod llofnod wedi’i ysgrifennu â llaw yn cael effaith gadarnhaol pan fydd ymddiheuriad o’r math hwn yn cael ei roi.

8.35 Rhaid i’r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig at y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran o fewn **dau ddiwrnod gwaith** ar ôl rhoi gwybod ‘yn uniongyrchol’.

8.36 Mae’n bwysig cydnabod bod cyfathrebu araf neu sâl yn ei gwneud hi’n fwy tebygol y bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran yn chwilio am wybodaeth mewn ffordd wahanol, fel cwyno neu gymryd camau cyfreithiol. Gall hefyd olygu na fyddant yn teimlo bod y broses wedi bod yn agored ac yn onest o’r cychwyn cyntaf.

**Yr ymddiheuriad**

8.37 Mae ymddiheuro mewn ffordd ystyrlon a phersonol yn rhan allweddol o’r broses hysbysu “yn uniongyrchol”. Mae **Atodiad E** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ymddiheuro fel rhan o’r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd.

8.38 Mae ymddiheuro’n ystyrlon mewn ffordd bersonol yn gallu bod yn ffordd ymarferol o adfer ymddiriedaeth. Gall ymddiheuro mewn ffordd ystyrlon, ddidwyll gyda dealltwriaeth fod yn effeithiol ac yn bwerus ac mae’n hanfodol i bawb dan sylw pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, gan gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran, a’r staff sy’n gofalu amdano. Ni ddylid diystyru’r effaith ar bawb dan sylw pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. I’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran, ymddiheuro yw’r cam pwysicaf y gall unrhyw unigolyn neu sefydliad ei gymryd fel arfer.

8.39 Mae pobl sy’n teimlo nad ydynt wedi cael gwybod mewn ffordd agored ac onest o’r dechrau’n fwy tebygol o deimlo bod y niwed maent wedi’i ddioddef wedi’i wneud yn waeth, a gall arwain at golli ymddiriedaeth yn eu darparwr gofal iechyd. Gall hyn arwain at deimlad o ddicter a gall achosi i’r berthynas chwalu. Gall hefyd olygu bod camau pellach yn cael eu cymryd.

8.40 Rydyn ni’n cydnabod y gall fod camsyniadau a chamddealltwriaeth fod ymddiheuriad yn gyfystyr â derbyn y bai, beiusrwydd neu hyd yn oed atebolrwydd cyfreithiol.

8.41 Nid yw hyn yn wir, ac ni ddylai arwain at unrhyw ragdybiaeth o’r fath.

8.42 Diffinnir “ymddiheuriad” yn rheoliad 2 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd fel a ganlyn:

*ymddiheuriad yw mynegiant o ofid neu edifeirwch mewn perthynas â'r canlyniad andwyol hysbysadwy*.

8.43 Mae rheoliad 12 yn nodi'n benodol nad yw ymddiheuriad neu unrhyw gam arall a gymerir yn unol â'r weithdrefn gonestrwydd yn gyfystyr â chyfaddefiad o esgeulustod neu o dorri dyletswydd statudol.

8.44 Mae rhoi ymddiheuriad yn cydnabod yr hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi sicrwydd bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif ac y manteisir ar gyfleoedd dysgu i atal amgylchiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

8.45 Rydyn ni’n cydnabod y gall staff weithiau ei chael yn anodd ymddiheuro pan fydd niwed wedi digwydd neu pan allai ddigwydd rywbryd yn y dyfodol. Efallai na fyddan nhw’n sicr a ydyn nhw’n cael ymddiheuro ac efallai eu bod yn poeni na fydd amseriad yr ymddiheuriad yn iawn, neu y byddan nhw’n gwneud pethau’n waeth, yn enwedig oherwydd gallai’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran fod yn flin ac yn ypset. Nod **Atodiad E** yw darparu canllawiau i gynorthwyo staff yn hyn o beth.

8.46 Mae’n arfer da cofnodi’r ymddiheuriad llafar yn y cofnod gofal cleifion. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm clinigol cyfan yn gwybod pan fydd ymddiheuriad wedi’i roi, a gall osgoi dyblygu.

**Hysbysu am ganlyniad ymholiadau pellach**

8.47 Mae Rheoliad 6 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG hysbysu'r defnyddiwr/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran o ganlyniadau unrhyw ymholiadau pellach a wneir gan y corff GIG a allai fod wedi cael eu cyfeirio at hysbysiad ‘uniongyrchol’.

8.48 Yn ymarferol, yn y rhan fwyaf o achosion ar ôl i’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran gael ei hysbysu, bydd y corff GIG gwneud ymholiadau pellach ac yn ymchwilio i’r amgylchiadau pan ddaeth y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol yn unol â darpariaethau Rheoliadau 2011. Bydd cyrff y GIG yn gyfarwydd â’r broses hon gan ei bod yn rheoli’r ffordd yr ymchwilir i ddigwyddiadau ar hyn o bryd.

8.49 Bydd cyfathrebu â’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran dan ddarpariaethau Rheoliadau 2011, sy’n cynnwys gofyniad i amlinellu canlyniad ymchwiliadau yn ysgrifenedig, hefyd yn bodloni gofynion rheoliad 6 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd, gan osgoi dyblygu.

8.50 Fel y nodir isod yn rhan 8, nid yw Rheoliadau 2011 yn berthnasol i holl gyrff y GIG – er enghraifft, nid ydynt yn berthnasol i Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Ar ben hynny, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan na fydd Rheoliadau 2011 yn berthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai cyrff GIG sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i'w galluogi i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu yn rheoliadau 4, 5 a 6.

**Cyfathrebu â defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran**

8.51 Mae rheoliad 7 yn rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid i gorff GIG ei wneud os na all gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu berson sy'n gweithredu ar ei ran i wneud y canlynol:

(i) rhoi hysbysiad 'uniongyrchol' (rheoliad 4),
(ii) rhoi hysbysiad ysgrifenedig (rheoliad 5),
(iii) rhoi gwybod am ganlyniad ymholiadau pellach (rheoliad 6),

neu os yw'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn gwrthod cyfathrebu.

8.52 Os nad yw'r corff GIG, ar ôl cymryd camau rhesymol, yn llwyddo i gysylltu, rhaid cofnodi'r ymdrechion i gysylltu fel rhan o'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chadw yn rhinwedd rheoliad 9 (Cofnodion), gweler rhan 7 isod. Yn ddelfrydol, dylid cofnodi'r wybodaeth yn y cofnod o'r digwyddiad.

8.53 Os bydd y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn rhoi gwybod nad yw'n dymuno cyfathrebu â chorff y GIG na derbyn gwybodaeth ganddo, rhaid cofnodi hyn yn glir hefyd yn unol â rheoliad 9 a dylid parchu dymuniadau'r unigolyn. Unwaith eto, byddai'n arfer da nodi hyn yn y cofnod o'r digwyddiad, a hefyd yn nodiadau meddygol y defnyddiwr gwasanaeth.

8.54 Yn unol â rheoliad 7(3)(b) nid yw'n ofynnol i gyrff y GIG ddarparu gwybodaeth na chyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn yr amgylchiadau hyn, pan fo'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn dweud nad ydynt yn dymuno cyfathrebu â chorff y GIG neu dderbyn gwybodaeth oddi wrtho. Fodd bynnag, rhaid i'r adolygiad o'r digwyddiad a arweiniodd at danio'r ddyletswydd barhau fel y gellir dysgu gwersi a gwneud gwelliannau o ran ansawdd.

8.55 Dylai'r corff GIG roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran bod modd iddo gysylltu â'r corff GIG os bydd yn newid ei feddwl ynglŷn â chymryd rhan yn y broses.

8.56 Rhaid i'r corff GIG gymryd camau rhesymol i ganfod pa ddull cyfathrebu sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran a, phan fo'n rhesymol ymarferol, cyfathrebu ag ef drwy'r dull hwn.

8.57 Ochr yn ochr â hyn, rhaid i'r corff GIG gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn digwydd mewn modd y gall ei ddeall.

**Cymorth a hyfforddiant**

8.58 Mae staff y GIG yn mynd i'w gwaith i ddarparu gofal ansawdd uchel i'r rhai sydd angen gofal a thriniaeth. Pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol ac mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, mae'n bwysig cydnabod y bydd effaith hefyd ar staff a oedd yn rhan o ofal y defnyddiwr gwasanaeth ac y gall fod angen cymorth arnyn nhw.

8.59 Mae Rheoliad 8 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn nodi'r gofynion mewn perthynas â hyfforddiant a chymorth.

8.60 Y gofynion yw rhoi hyfforddiant a chanllawiau perthnasol i'r holl staff sy'n rhan o'r canlynol:

- darparu gofal iechyd;
- ymchwilio i ganlyniadau andwyol hysbysadwy neu eu rheoli;
- unrhyw aelodau perthnasol eraill o staff sy'n ymwneud â chyflawni neu arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r weithdrefn gonestrwydd.

8.61 Yn ogystal â'r holl staff clinigol, byddai hyn yn ymarferol yn cynnwys uwch-staff (gan gynnwys staff ar lefel bwrdd) sy'n gyfrifol am oruchwylio rheoli canlyniadau andwyol yn eu sefydliadau, y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwiio i ganlyniadau andwyol hysbysadwy, eu rheoli a/neu hysbysu yn eu cylch, ac unrhyw staff eraill sy'n delio â chwynion a phryderon. Ar lefel gofal sylfaenol byddai hyn yn cynnwys rheolwyr practisau.

8.62 Bydd modiwlau hyfforddi'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Chydwasanaethau GIG Cymru a byddant ar gael drwy blatfformau Dysgu Cymru ac ESR.

8.63 Mae'r ddogfen ganllawiau hon a dogfennau atodol yn darparu'r holl ddogfennau cymorth perthnasol i helpu cyrff y GIG i gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r ddyletswydd gonestrwydd. Ar ben hynny, mae rhaglen hyfforddi Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i annog "newid diwylliannol" i gefnogi'r canllawiau hyn a gweithredu'r ddyletswydd.

8.64 Mae'r Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r corff GIG roi manylion am y gwasanaethau neu'r cymorth sydd ar gael i aelod o staff sy'n ymwneud â chanlyniad andwyol hysbysadwy, gan ystyried:

- yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r canlyniad andwyol hysbysadwy;
- anghenion yr aelod o staff.

8.65 Bydd gan gyrff y GIG fecanweithiau ar waith a gwasanaethau cymorth lleol ar gael i gynnig y ddarpariaeth briodol o gymorth a chefnogaeth yn rhagweithiol i aelodau staff drwy eu Gwasanaeth Lles Gweithwyr/Iechyd Galwedigaethol/Rhaglenni Cymorth i Weithwyr, yn ogystal â nifer o wasanaethau cymorth cenedlaethol sydd ar gael drwy wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)[26], fel Iechyd ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, SilverCloud a'r Samariaid. Bydd Rheolwyr Llinell Lleol, gweithwyr proffesiynol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (gan gynnwys cydweithwyr iechyd galwedigaethol a lles gweithwyr) a chynrychiolwyr Undebau Llafur hefyd yn gallu cyfeirio staff at wasanaethau cymorth priodol.

**Cadw cofnodion**

8.66 Mae adran 4(3)(c) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd ragnodi'r cofnodion y mae'n rhaid i gyrff y GIG eu cadw mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd.

8.67 Mae rheoliad 9 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG gadw cofnod ysgrifenedig cywir ar gyfer pob canlyniad andwyol hysbysadwy lle mae'r weithdrefn gonestrwydd wedi'i dilyn. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys pob dogfen a darn o ohebiaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau andwyol hysbysadwy, heb ei gyfyngu i:

- yr hysbysiad o'r ddyletswydd;
- ymdrechion i gyfathrebu gyda'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran;
- unrhyw benderfyniad gan y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran i beidio â chael gwybod am faterion yn ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd;
- yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad i'r digwyddiad a'r adolygiad o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, a gynhaliwyd gan y corff GIG, sydd wedi arwain at sbarduno'r ddyletswydd, gan gynnwys yr ymateb a roddwyd o dan reoliadau 24, 26 neu 31 o'r Rheoliadau Gweithio i Wella.

8.68 Ystyrir ei bod yn arfer da cofnodi unrhyw benderfyniad i beidio â sbarduno'r ddyletswydd (lle ystyriwyd ei sbarduno). Mae'n bwysig bod cofnodion cywir yn cael eu cadw i gefnogi'r mecanweithiau sicrhau ansawdd sydd eu hangen i nodi meysydd ar gyfer dysgu a gwella a hefyd i alluogi cyrff y GIG i gydymffurfio â'u gofynion adrodd o dan y Ddeddf, a ystyrir yn rhan 11 isod.

8.69 Rhagwelir y defnyddir system Datix Cymru er mwyn adrodd a chadw cofnodion.

[26] Hafan - AaGIC (gig.cymru)

**Goruchwylio’r trefniadau**

8.70 Ystyrir ei bod yn bwysig bod cyrff y GIG yn penodi uwch arweinwyr i fod yn atebol ac yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol ar gyfer gweithredu’r weithdrefn y mae’n ofynnol ei dilyn yn unol â’r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd.

8.71 Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddynodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth strategol ar weithrediad y weithdrefn gonestrwydd a nodir yn Rheoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd. Pan fo'r corff GIG yn Fwrdd Iechyd Lleol, yn Ymddiriedolaeth neu'n Awdurdod Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â’i swyddogaethau yng Nghymru) rhaid i'r unigolyn fod yn rhywun nad yw’n swyddog neu’n gyfarwyddwr anweithredol, fel y bo'n briodol.

8.72 Mae gan ddarparwyr gofal sylfaenol ddisgresiwn o ran pwy sy’n gyfrifol am neilltuo rolau o’r fath.

8.73 Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddynodi unigolyn (y “swyddog cyfrifol”) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r weithdrefn yn effeithiol o ddydd i ddydd o dan Reoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd. Pan fo'r corff GIG yn Fwrdd Iechyd Lleol, yn Ymddiriedolaeth neu'n Awdurdod Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â’i swyddogaethau yng Nghymru) rhaid i'r swyddog cyfrifol fod yn swyddog neu’n gyfarwyddwr anweithredol, fel y bo'n briodol.

8.74 O ran darparwyr gofal sylfaenol, rhaid i’r swyddog cyfrifol fod yn berson sy'n gweithredu fel prif weithredwr y corff. Os nad oes prif weithredwr, rhaid iddo fod:

- y person sy'n unig berchennog;
- yn un o’r partneriaid, os partneriaeth ydyw; neu
- mewn unrhyw achos arall, cyfarwyddwr neu berson sy'n gyfrifol am reolaeth.

8.75 Mae Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd yn caniatáu i swyddogaethau'r swyddog cyfrifol gael eu dirprwyo i berson arall, ar yr amod bod y person hwnnw o dan reolaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol y swyddog cyfrifol. Fodd bynnag, bydd yr atebolrwydd yn nwylo'r swyddog cyfrifol ei hun.

8.76 Ystyrir ei bod yn arfer da i’r unigolion sy’n cael eu dynodi yn unol â rheoliadau 10 ac 11 o Reoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd fod yr un unigolion a enwebir o dan reoliadau 6 a 7 o Reoliadau 2011[27], yn y drefn honno, oherwydd bod cysylltiadau agos rhwng y weithdrefn gonestrwydd a’r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i bryderon yn Rheoliadau 2011.

[27] Mae rheoliad 6 yn Rheoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gael ei benodi i gynnal trosolwg strategol o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon o dan y Rheoliadau hynny ac mae rheoliad 7 yn ei gwneud

**Niwed sy'n digwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth wrth aros am ddiagnosteg neu ofal gan y GIG**

8.77 Ers y Pandemig SARS-CoV-2 Byd-eang mae pwysau sylweddol wedi bod ar adnoddau yn y GIG ac o’r herwydd mae llawer mwy o gleifion yn aros am ddiagnosis, triniaethau a gofal ar restrau aros y GIG.

8.78 Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed tra bo ar restr aros, gallai hyn **o bosibl** sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Er mwyn i ddefnyddiwr gwasanaeth fod ar restr aros rhaid cael atgyfeiriad fel arfer, sy'n cynnwys asesiad a phenderfyniad clinigol - felly mae bron yn ddieithriad wedi cael gofal iechyd er mwyn mynd ar y rhestr. Yn ogystal, pan geir atgyfeiriad mae'r defnyddiwr gwasanaeth fel arfer yn cael ei ystyried yn un sydd dan ofal ymgynghorydd, ac yn aml mae’r rhestr aros yn cael ei monitro’n weithredol, sy’n cynnwys elfen o fewnbwn a dyfarnu clinigol sydd hefyd yn gyfystyr â darparu gofal iechyd. Os felly, mae person yn cael gofal iechyd yn dilyn yr atgyfeiriad.

8.79 Fodd bynnag, yr elfennau allweddol eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r ddyletswydd gael ei sbarduno yw bod y defnyddiwr gwasanaeth sy’n cael neu sydd wedi cael gofal iechyd gan y corff wedi dioddef "canlyniad andwyol", ac y gallai’r darpariaeth gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor a arweiniodd at y defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef y canlyniad hwnnw. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei drin fel un sydd wedi dioddef canlyniad andwyol os yw wedi profi unrhyw niwed "annisgwyl neu anfwriadol" sy'n fwy nag ychydig o niwed neu os yw’r amgylchiadau’n golygu y gallai ddioddef niwed o’r fath. Mae rhestrau aros ar draws pob maes yn cael eu rheoli, ac un o'r agweddau allweddol ar reoli rhestrau aros yw eu rheoli i leihau niwed i’r rhai sy'n aros am driniaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir, oherwydd galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau nad ydynt yn ddihysbydd (a wnaed yn waeth gan yr ôl-groniad a achoswyd gan y pandemig) mae pobl yn gorfod aros am driniaeth ac, mewn llawer o achosion, bydd eu cyflwr yn dirywio wrth iddynt aros am y driniaeth honno. Nid yw'r dirywiad hwn yn annisgwyl at ddibenion sbarduno’r ddyletswydd gonestrwydd.

8.80 Er enghraifft: mae defnyddiwr gwasanaeth ar restr aros am lawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon, ac mae’n cael trawiad ar y galon tra mae ar y rhestr aros. Nid yw hyn yn annisgwyl ac mae'n risg sydd wedi’i hegluro i'r claf wrth esbonio bod angen llawdriniaeth ac felly ni fyddai'r ddyletswydd yn berthnasol.

---

yn ofynnol i unigolyn gael ei benodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon yn cael eu gweithredu'n effeithiol o ddydd i ddydd mewn modd integredig.

8.81 Wedi dweud hynny, pe bai enw’r defnyddiwr gwasanaeth wedi'i golli o’r rhestr neu ddyletswydd yn berthnasol gan y byddai'r niwed sy'n deillio o hynny yn annisgwyl. Gallai hefyd fod achlysuron eraill lle mae defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed sy'n fwy nag ychydig o niwed wrth aros am driniaeth ac yr ystyrir bod y niwed sy'n cael ei ddioddef yn "annisgwyl neu anfwriadol" – hynny yw mae’n fwy na’r hyn y gellid ei ddisgwyl neu ei fwriadu yn rhesymol o ystyried ffactorau megis cyflwr y person, nifer y bobl sy'n aros am driniaeth a’r adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r driniaeth honno.

8.82 Mae ychydig yn fwy cymhleth os yw person yn cael ei asesu gan gorff A ac yna’i gyfeirio at gorff B sy'n ei roi ar restr aros. Mae hyn yn aml yn wir am atgyfeiriadau rhwng practis cyffredinol a gofal ysbyty.

8.83 Yn yr achos hwn mae'n llai eglur, oherwydd os yw’r person wedi cael gofal iechyd fel rhan o'i asesiad, bydd y gofal iechyd wedi'i ddarparu gan gorff A, y meddyg teulu, felly nid yw wedi cael gofal iechyd "gan y corff" sy'n gyfrifol am yr oedi. Mae’r cwestiwn ynghylch a yw’r meini prawf yn cael eu bodloni yn dibynnu pa gamau gweithredu y mae corff B yn eu cymryd pan fydd yn cael yr atgyfeiriad ac a oes unrhyw gamau a gymerwyd a allai fod yn gyfystyr â darparu gofal iechyd gan gorff B. Anogir yn gryf fod y cyrff GIG dan sylw yn gweithio gyda’i gilydd mewn partneriaeth i gyflawni dyletswydd y weithdrefn gonestgrwydd ac yn cymryd rhan lawn yn y broses.

## 9 YR ADOLYGIAD

9.1 Wrth roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno, rhaid i gorff GIG (yn unol â rheoliadau 4(3)(e) a 5(3)(c) o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd) hefyd roi esboniad o'r camau y bydd yn eu cymryd a’r ymholiadau pellach y bydd yn eu cynnal i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy neu i'w hadolygu.

9.2 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae hyn yn golygu dilyn y drefn ar gyfer ymchwilio i bryderon a nodir yn Rheoliadau 2011. Mae “pryderon” fel y mae’n cae ei ddiffinio yn Rheoliadau 2011 yn cynnwys digwyddiadau’n ymwneud â diogelwch cleifion.

9.3 Fodd bynnag, bydd achosion lle na fydd adolygiad/ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau 2011, er bod y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol. Er enghraifft, nid yw Rheoliadau 2011 yn berthnasol i Gwaed a Thrawsblaniadau’r GIG. Byddant yn dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch cleifion.

9.4 Mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Reoliadau 2011, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, rhaid i'r ymchwiliad fod yn gymesur, rhaid iddo gael ei gynnal yn agored ac yn effeithlon a dylai'r ffocws fod ar wella ansawdd, diogelwch a rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu.

9.5 Dylid gwahodd y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran i gyfrannu at gylch gorchwyl yr adolygiad, a dylid cadw mewn cysylltiad drwy gydol y broses adolygu, os mai dyma a gytunwyd. Dylid ystyried beth yw dewis y defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran, gan na fydd pawb yn dymuno cymryd rhan i'r graddau hyn.

9.6 Rhoddir gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd am ganlyniad yr adolygiad yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau hynny neu, yn achos gofal a ddarperir gan Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG neu Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru, yn unol â rheoliadau 26 a 31 pan fo'r trefniadau unioni cam wedi'u rhoi ar waith.

9.7 Dylid ystyried a ddylid rhoi gwybod i 'eraill' am y digwyddiad ee cyflogwr neu reoleiddiwr proffesiynol.

9.8 Dylai'r staff a oedd yn ymwneud â'r driniaeth neu'r gofal a arweiniodd at danio'r ddyletswydd gonestrwydd fod yn rhan o'r broses adolygu lle bo hynny'n briodol, a dylent gael gwybod am y canlyniad terfynol hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad ac am gadw cofnodion ar gael yn **Atodiad F**.

9.9 Gwnaed rhai diwygiadau i Reoliadau 2011 i'w gwneud yn gydnaws â'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r prif ddiwygiadau wedi'u nodi yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd, a'u heffaith (<u>os yw'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol</u>) yw gwneud y terfynau amser presennol yn rheoliadau 24, 26 a 33 ar gyfer ymateb i bryderon etc yn gymwys o'r dyddiad y mae corff GIG yn rhoi'r 'hysbysiad uniongyrchol' i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran o dan reoliad 4 o Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd.

## 10 PAN FYDD MWY NAG UN CORFF GIG YN YMWNEUD Â GWEITHDREFN Y DDYLETSWYDD GONESTRWYDD

10.1 Yn aml, mae amryw o gyrff y GIG yn ymwneud â chyfnod o ofal lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Mae **Atodiad H** yn cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos er gwybodaeth. (Astudiaethau achos 13 – 17).

10.2 Er na fydd yr holl gyrff sy'n ymwneud â darparu cyfnod o ofal o reidrwydd yn 'gorff darparu' o ran y ddeddfwriaeth (hy nid oedd neu nid oes gan eu gofal y potensial i danio'r ddyletswydd gonestrwydd) efallai y bydd angen iddyn nhw ddarparu gwybodaeth fel rhan o adolygiad neu ddarparu cefnogaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran. Disgwylir i bob parti gydweithredu'n llawn mewn modd agored, gan hwyluso'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd drwyddi draw a rhannu unrhyw wersi a ddysgir o ganlyniad i'r adolygiad/ymchwiliad dilynol, gan gynnwys unrhyw gamau sydd i'w cymryd er mwyn atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

10.3 Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd nifer o gyrff y GIG (hy nifer o gyrff darparu), yn penderfynu rhoi'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ar waith ar gyfer 'canlyniadau andwyol hysbysadwy' lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno mewn perthynas ag un cwrs o driniaeth. Mae **Atodiad H** yn cynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos er gwybodaeth. (Astudiaethau achos 16 ac 17).

10.4 Dan amgylchiadau o'r fath, byddai'n arfer dda i gyrff y GIG geisio cyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran i gael y caniatâd priodol, yn unol â GDPR, i ymgymryd â dull cydgysylltiedig o hysbysu. Fel arall, mae risg y bydd y defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran yn teimlo ei fod yn cael ei lethu neu ei ddrysu gan y broses, os byddant yn cael sawl hysbysiad.

10.5 Y nod ddylai fod gwneud y broses mor hawdd â phosibl i'r rhai dan sylw ac, yn benodol, i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran.

10.6 Fodd bynnag, mae gan bob corff GIG (corff darparu) ei gyfrifoldeb ei hun o hyd o dan Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd a rhaid iddo sicrhau y gall ddangos tystiolaeth ei fod, fel sefydliad unigol, wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hynny.

10.7 Pan fo ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau 2011, yn dilyn y weithdrefn hysbysu o dan Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd, mae rheoliad 17 o Reoliadau 2011 yn gymwys. Mae rheoliad 17 yn ymdrin â phryderon sy'n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol. Mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyfrifol (yn amodol ar gael y cydsyniadau perthnasol gan y defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran) i gydweithredu at ddibenion cydlynu'r gwaith o drin ac ymchwilio i bryderon a darparu ymateb cydgysylltiedig.

10.8 Os bydd corff GIG yn darganfod bod digwyddiad a fyddai'n sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd wedi digwydd mewn corff GIG gwahanol, dylai'r corff GIG sy'n canfod y 'digwyddiad' roi gwybod i'r corff GIG lle digwyddodd y 'digwyddiad', a rhaid iddo wedyn weithredu'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Rhaid i'r corff GIG sy'n darganfod y 'digwyddiad' hefyd fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch yr hyn y mae wedi'i ddarganfod. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid iddo gyflawni'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd benodol; dylai'r corff GIG sy'n gyfrifol wneud hyn, hy y 'corff darparu' lle cafodd y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno.

## 11 DEFNYDDIO'R DDYLETSWYDD GONESTRWYDD GYDA GWASANAETHAU A GOMISIYNIR

11.1 Mae adran 1 o'r Ddeddf (fel y'i darllenir gydag adran 11) yn egluro pa sefydliad fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn sefyllfaoedd pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan un corff ar ran un arall. Mae'r sefyllfa, mewn perthynas â threfniadau gwahanol, wedi'i nodi isod:

**Gwasanaethau a gomisiynir gan gorff GIG oddi wrth gorff GIG arall yng Nghymru**

11.2 Mae corff GIG yng Nghymru yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â'r holl ofal mae'n ei ddarparu. Felly, er enghraifft, pan fydd bwrdd iechyd yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwr gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau'r GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n rhwym wrth y ddyletswydd.

11.3 Yn yr un modd, os bydd Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i drefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth GIG sy'n gyfrifol am y ddyletswydd.

**Gwasanaethau a gomisiynir oddi wrth gyrff nad ydynt yn gyrff GIG yng Nghymru**

11.4 Os bydd corff GIG yn ymrwymo i drefniant i ddarparu gwasanaethau gyda rhywun ar wahân i un o gyrff eraill y GIG, y corff GIG sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Felly, er enghraifft, pe bai bwrdd iechyd lleol yn ymrwymo i drefniant gyda darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau, byddai'r ddyletswydd yn berthnasol i'r bwrdd iechyd lleol.

11.5 Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r corff GIG fyddai hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran am yr hysbysiad 'uniongyrchol' yn unol â rheoliad 4, a'r hysbysiad ysgrifenedig yn unol â rheoliad 5.

11.6 Mae darpariaethau Rheoliadau 2011 yn berthnasol i unigolion sy'n darparu gwasanaethau o dan drefniadau gyda chorff GIG. Felly, fel sy’n digwydd ar hyn o bryd, mater i’r darparwr annibynnol fyddai ymchwilio i amgylchiadau’r canlyniad andwyol hysbysadwy a chyfleu canlyniad yr ymchwiliad hwnnw i’r defnyddiwr gwasanaeth/y sawl sy’n gweithredu ar ei ran.

11.7 Dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu trefniadau comisiynu gyda darparwyr annibynnol y tu allan i’r GIG yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r darparwr annibynnol eu hysbysu pan fyddant o’r farn bod y ddyletswydd gonestrwyd wedi’i sbarduno, fel y gall y corff GIG gydymffurfio â’i rwymedigaethau mewn perthynas â hysbysu o dan y Ddeddf. Bydd angen i’r trefniadau comisiynu hefyd ei gwneud yn ofynnol i’r darparwr annibynnol roi digon o wybodaeth i’r corff GIG i’w alluogi i gydymffurfio â’i rwymedigaethau adrodd o dan adran 7 o’r Ddeddf.

**Defnyddio’r ddyletswydd gonestrwydd gyda gofal sy’n cael ei gomisiynu y tu allan i Gymru**

11.8 Dim ond os yw’r gofal iechyd **yn cael ei ddarparu yng Nghymru fel rhan o wasanaethau’r GIG** y mae’r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol o dan y Ddeddf. Er enghraifft, os bydd bwrdd iechyd lleol yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwr yn Lloegr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr, dyletswydd gonestrwydd Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 fydd yn berthnasol mewn cysylltiad â’r gofal hwnnw.

11.9 Mae **Atodiad A1** yn nodi siart llif y weithdrefn ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.

## 12 GOFYNION ADRODD

12.1 Dan y ddyletswydd, bydd yn rhaid i gyrff y GIG adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â’r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau. Bydd yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol gasglu’r wybodaeth hon gan y darparwyr gofal sylfaenol hynny y byddan nhw’n ymrwymo i gontract neu i drefniadau am wasanaethau gyda nhw a chyhoeddi adroddiad cyfun. Mae **Atodiad G** yn cynnwys siart llif sy’n nodi’r gofynion adrodd, cyhoeddi a monitro.

12.2 Wrth adrodd, bydd yn rhaid i gyrff y GIG nodi a yw’r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd (a ddiffinnir fel pob cyfnod o 12 mis a ddaw i ben ar 31ain Mawrth, (pob blwyddyn ariannol), ac os ydyw:

1. nodi pa mor aml mae’r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd;
2. rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at danio’r ddyletswydd; a
3. nodi unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd gan y corff gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

12.3 Rhaid paratoi’r adroddiad cyn gynted ag sy’n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

12.4 Er mwyn symleiddio’r broses o lunio adroddiadau blynyddol yng Nghymru a lleihau dyblygu cynnwys tra'n sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddio yn cael eu bodloni, dylai Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gynnwys eu hadroddiadau gonestrwydd yn yr Adroddiad Gwneud Pethau’n Iawn y dylid ei gyhoeddi yn unol â rheoliad 51 o Reoliadau 2011[28] erbyn **31 Hydref** bob blwyddyn.

12.5 Mae rheoliad 51 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG baratoi adroddiad blynyddol am wybodaeth ynghylch pryderon, (pan ystyrir bod pryderon yn cynnwys cwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion a hawliadau). Ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol, mae hyn yn cynnwys anfon eu hadroddiad at y Bwrdd Iechyd Lleol maen nhw wedi ymrwymo i drefniadau ag ef, gan ganiatáu ar gyfer ei gasglu a’i gyhoeddi yn adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella y Bwrdd Iechyd Lleol[29], a’i ystyried yn Natganiad Ansawdd Blynyddol pob sefydliad.

### Darparwyr Gofal Sylfaenol: dyletswydd i adrodd

12.6 Rhaid i ddarparwyr Gofal Sylfaenol baratoi adroddiad mewn cysylltiad â’r gofal iechyd maen nhw’n ei ddarparu dan gontract neu drefniant arall gyda’u bwrdd iechyd. Rhaid i’r adroddiad ddatgan, yn ystod y flwyddyn adrodd (a ddiffinnir fel pob cyfnod o 12 mis a ddaw i ben ar 31 Mawrth, (pob blwyddyn ariannol)), a yw’r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd gan y darparwr gofal sylfaenol. Os yw wedi, rhaid i’r adroddiad wneud y canlynol:

1. pennu pa mor aml mae hyn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn adrodd,
2. rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at danio’r ddyletswydd,
3. disgrifio unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd gan y darparwr gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

12.7 Rhaid cyflwyno’r adroddiad a baratowyd i’r Bwrdd Iechyd Lleol ar ôl ei gwblhau.

---

[28] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Iawn) (Cymru) 2011 (OS 2011/704). Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/704/contents/made

[29] Llywodraeth Cymru. Gweithio i Wella - Canllawiau ar ddelio â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011 [Rhyngrwyd] Llywodraeth Cymru; 2013. Ar gael o: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20%20-%2020140122.pdf

12.8 Os yw'r darparwr Gofal Sylfaenol wedi darparu gofal iechyd ar ran dau neu fwy o Fyrddau Iechyd Lleol, bydd adroddiad ar wahân yn cael ei baratoi a'i roi i bob Bwrdd Iechyd Lleol ar ôl ei gwblhau.

12.9 Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol sy'n derbyn yr adroddiad baratoi crynodeb o'r adroddiadau a dderbyniwyd gan y darparwyr Gofal Sylfaenol yn yr adroddiad gonestrwydd maen nhw yn ei gyhoeddi.

12.10 O ganlyniad, er mwyn rhoi amser i Fyrddau Iechyd Lleol lunio'r crynodeb, rhaid rhoi adroddiadau o'r fath i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol erbyn **30 Medi** fan hwyraf bob blwyddyn.

12.11 Er nad yw'n orfodol defnyddio system Datix, byddai hynny'n hwyluso coladu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofyniad adrodd.

**Cyhoeddi adroddiadau**

12.12 Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol am y ddyletswydd gonestrwydd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Yn achos Byrddau Iechyd Lleol, rhaid i'w hadroddiad gynnwys crynodeb o'r adroddiadau sydd wedi cael eu darparu gan ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol.

12.13 Felly, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â'i wasanaethau ei hun a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gofal sylfaenol yn ei ardal. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl wybodaeth am y ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad ag ardal y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei chyhoeddi gyda'i gilydd.

12.14 Fel y nodir uchod, dylid cyhoeddi adroddiadau o'r fath erbyn **31 Hydref** bob blwyddyn.

## 13 TREFNIADAU SICRWYDD A MONITRO'R BWRDD

13.1 Nid yw torri'r ddyletswydd gonestrwydd yn drosedd. Rydyn ni am i'r ddyletswydd ganolbwyntio ar ddysgu a gwella, ac nid ar gosbi pan nad yw cyrff y GIG yn cyflawni'r ddyletswydd.

13.2 Fodd bynnag, dylai cyrff y GIG ystyried sut gellir integreiddio'r gwaith o fonitro gweithrediad effeithiol y camau gweithredu sy'n ofynnol dan y ddyletswydd gonestrwydd i'r fframweithiau, y prosesau a'r gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol presennol. Dylid gofyn am sicrwydd i gadarnhau bod holl elfennau'r weithdrefn yn cael eu rhoi ar waith pan ddylent fod, a bod ffyrdd o gefnogi gwaith gwella a mireinio parhaus yn y ffordd mae corff GIG yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol.

13.3 Dylai arweinwyr a rheolwyr yn y corff GIG sicrhau bod gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhan allweddol o'r systemau dysgu yn eu meysydd gwasanaeth, a bod yr integreiddio a'r cysoni angenrheidiol â phrosesau a gweithdrefnau wedi digwydd ac yn atgyfnerthu'r gwerthoedd a ddisgwylir yn eu maes gwasanaeth.

13.4 O ran Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, disgwylir y bydd perchnogaeth ac atebolrwydd lleol gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu drwy gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, lle gall aelodau annibynnol ofyn am sicrwydd bod y ddyletswydd yn cael ei chyflawni a bod y dysgu'n cael ei ddatblygu a bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd os yw hynny'n briodol.

13.5 Bydd y gwaith o weithredu a chydymffurfio â'r ddyletswydd hefyd yn cael ei drefnu i'w drafod mewn cyfarfodydd grŵp ansawdd a chyflawni rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff unigol y GIG, y grŵp ansawdd a chyflawni cenedlaethol a bydd yn sail i gyfarfodydd y Cyd Dîm Gweithredol a gwerthusiadau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chadeiryddion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

13.6 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnwys yr adroddiadau blynyddol ochr yn ochr â ffynonellau eraill o wybodaeth a fydd yn helpu i driongli'r defnydd o'r ddyletswydd gan ystyried, er enghraifft, digwyddiadau difrifol sy'n cael eu hadrodd yn unol â'r polisi Cenedlaethol newydd ar Gofnodi Digwyddiadau sy'n ymwneud â Diogelwch Cleifion.

13.7 Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd hefyd yn rhan o'r materion a ystyriwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wrth arolygu ac adolygu'r GIG.

13.8 Bydd y gofynion adrodd blynyddol hefyd yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i Lywodraeth Cymru am y ddyletswydd, a fydd yn helpu i wneud y broses yn dryloyw ac yn hygyrch i'r cyhoedd a chyrff fel Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 14 CYFRINACHEDD

14.1 Mae'n bwysig sicrhau y glynir wrth ofynion GDPR bob amser wrth gael gafael ar wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth, ei phrosesu a'i datgelu. Rhaid i adroddiadau a chyhoeddiadau beidio â datgelu pwy yw unrhyw un y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo gan neu ar ran corff GIG, nac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth.

14.2 Rhaid gofalu hefyd na fydd modd adnabod rhywun heb yn wybod drwy'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi mewn adroddiad. Nid oes angen enwi rhywun er mwyn gallu ei adnabod, er enghraifft, mae achos wedi cael sylw yn y wasg neu, i roi enghraifft arall, pan fydd gan rywun gyflwr meddygol prin iawn a gallai enwi'r cyflwr olygu bod modd adnabod yr unigolyn.

14.3 Mae **Atodiad I** yn cynnwys adran sy'n ymdrin â chwestiynau cyffredin.